***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 102 (Cy.15)

# PRIFFYRDD, CYMRU

## Rheoliadau Gwaith Stryd (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *17 Ionawr 2008* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *18 Ionawr 2008* |
| *Yn dod i rym - -* | *12 Mai 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 48(2), 95A(5), 97 a 104(1) o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 a pharagraffau 2, 4(1), 5(2), 8(a) a 9(b) o Atodlen 4B iddi(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt(**2**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwaith Stryd (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2008. Deuant i rym ar 12 Mai 2008 ac maent yn gymwys o ran Cymru .

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "cyfeiriad" ("*address*"), o ran dull penodol o drosglwyddo cyfathrebiad electronig, yw unrhyw rif neu gyfeiriad a ddefnyddir at ddibenion dull trosglwyddo o'r fath;

mae i "cyfathrebu electronig" yr ystyr a roddir i "*electronic communication*" yn adran 15(1) o Ddeddf Cyfathrebu Electronig 2000(**3**);

ystyr "Deddf 1991" ("*the 1991 Act*") yw Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991; ac

ystyr "tramgwydd" ("*offence*") yw tramgwydd cosb benodedig.

(**1**) 1991 p.22. Mewnosodir adran 95A ac Atodlenni 4A a 4B gan Ddeddf Rheoli Traffig 2004 (p.18) ("Deddf 2004"), adran 41 ac Atodlenni 2 a 3. Diwygir adran 97 yn rhagolygol gan adran 64(4) o'r Ddeddf honno. Yn rhinwedd paragraff 26 o Atodlen 11 a pharagraff 7 o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), nid yw'n ofynnol i Weinidogion Cymru gael cydsyniad y Trysorlys i arfer swyddogaethau o dan baragraff 8(a) o Atodlen 4B i Ddeddf 1991.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol (ac eithrio'r swyddogaethau o dan a.167(3)) o dan y Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf 1991 i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) 2000 p.7. Diwygiwyd adran 15(1) gan Ddeddf Cyfathrebu 2003 (p.21), adran 406(1) ac Atodlen 17, paragraff 158.

**Eithriadau**

**3.** Nid yw adran 95A(1) o Ddeddf 1991 ac Atodlen 4A iddi (tramgwyddau cosbau penodedig o dan Ran 3) yn gymwys i stryd nad yw'n briffordd a gynhelir.

**Ffurf ar hysbysiad o gosb benodedig**

**4.** Rhaid i hysbysiad o gosb benodedig fod yn y ffurf a osodir yn Atodlen 1.

**Dull cyflwyno hysbysiad o gosb benodedig neu gyflwyno hysbysiad sy'n tynnu'n ôl hysbysiad o gosb benodedig**

**5.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (5) a (7), os bydd person—

(a) wedi rhoi i awdurdod stryd gyfeiriad ar gyfer cyflwyno unrhyw hysbysiad o dan Atodlen 4B i Ddeddf 1991 iddo (cosbau penodedig ar gyfer tramgwyddau penodol o dan Ran 3) drwy ddefnyddio dull penodol ar gyfer trosglwyddo cyfathrebiad electronig; a

(b) heb hysbysu'r awdurdod bod y cyfeiriad wedi'i dynnu'n ôl at y diben hwnnw,

rhaid rhoi'r cyfryw hysbysiad drwy ei anfon ato yn y cyfeiriad hwnnw drwy'r dull hwnnw, yn unol â'r amod a osodir ym mharagraff (3).

(2) Yn unrhyw arall achos, rhaid rhoi hysbysiad o dan yr Atodlen honno—

(a) drwy ei anfon drwy'r post dosbarth cyntaf at y person y mae i'w roi iddo yn ei gyfeiriad priodol;

(b) drwy ei draddodi iddo;

(c) drwy ei adael yn ei gyfeiriad priodol; neu

(ch) drwy unrhyw ddull arall y cytunir arno gydag ef.

(3) Yr amod y cyfeirir ato ym mharagraff (1) yw bod yn rhaid i'r hysbysiad—

(a) allu cael ei gyrchu gan y person yr anfonir ef ato;

(b) bod yn ddarllenadwy ym mhob manylyn o bwys; ac

(c) ar ffurf sy'n caniatáu y gellir cadw'r hysbysiad er mwyn cyfeirio ato yn nes ymlaen,

ac i'r diben hwn ystyr "yn ddarllenadwy ym mhob manylyn o bwys" yw bod yr wybodaeth a geir yn yr hysbysiad ar gael i'r person hwnnw o leiaf i'r un graddau â phe bai wedi ei roi iddo drwy gyfrwng hysbysiad ar ffurf brintiadwy.

(4) Yn ddarostyngedig i adran 98(2) o Ddeddf 1991 (cyfrifo cyfnodau), os defnyddir cyfathrebu electronig at ddibenion cyflwyno hysbysiad o dan Atodlen 4B i'r Ddeddf honno, yna, oni phrofir i'r gwrthwyneb, bernir bod yr hysbysiad wedi'i roi ar y diwrnod ac ar yr amser a gofnodir gan y cyfarpar trosglwyddo fel y diwrnod a'r amser pan gwblhawyd y trosglwyddiad yn foddhaol.

(5) Os, ar ôl tri chais (a gofnodwyd yn briodol gan y person sy'n cyflwyno'r hysbysiad) i wneud y cyflwyno'n effeithiol drwy ddefnyddio un dull penodol i drosglwyddo cyfathrebiad electronig, na ellir cyflwyno'r hysbysiad, gellir rhoi'r hysbysiad drwy ei gyflwyno i'r person y dylid ei roi iddo drwy unrhyw ddull arall y mae cyfeiriad ar gael iddo yn rhinwedd paragraff (1) neu drwy unrhyw ddull arall y cyfeirir ato ym mharagraff (2).

(6) Yn ddarostyngedig i baragraff (7), at ddibenion y rheoliad hwn, cyfeiriad priodol unrhyw berson y mae hysbysiad o dan Atodlen 4B i Ddeddf 1991 i'w roi iddo, yw—

(a) os yw'r cyfryw berson wedi rhoi i'r awdurdod stryd sy'n rhoi'r hysbysiad gyfeiriad ar gyfer gwasanaeth post o hysbysiadau o'r fath, y cyfeiriad hwnnw; a

(b) fel arall

(i) yn achos corfforaeth, swyddfa gofrestru neu brif swyddfa'r gorfforaeth; a

(ii) mewn unrhyw achos arall, cyfeiriad hysbys diwethaf y cyfryw berson.

(7) Caiff person roi cyfeiriadau gwahanol ar gyfer gwahanol hysbysiadau neu wahanol ddosbarthiadau o hysbysiad.

### Terfyn amser ar gyfer rhoi hysbysiad o gosb benodedig

**6.** Ni chaniateir rhoi hysbysiad o gosb benodedig am dramgwydd mwy na 91 o ddiwrnodau ar ôl cyflawni'r tramgwydd sy'n dechrau gyda'r diwrnod y cyflawnir ef.

### Swm y gosb

**7.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), os bydd hysbysiad o gosb benodedig wedi'i rhoi ynglyn â thramgwydd a nodir yng ngholofn 2 o'r Tabl yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn, ac a ddisgrifir yn gryno yng ngholofn 3 o'r Tabl hwnnw, y gosb ar gyfer y tramgwydd hwnnw fydd y swm a nodir ynglŷn ag ef yng ngholofn 4.

(2) Os, ynglyn â thramgwydd o'r fath, caiff taliad ei wneud cyn diwedd y cyfnod a bennir ym mharagraff 5(1) o Atodlen 4B i Ddeddf 1991, neu os na fydd diwrnod olaf y cyfnod yn digwydd ar ddiwrnod gwaith, cyn diwedd y diwrnod gwaith canlynol yn unol â pharagraff 5(3) o'r Atodlen honno, y gosb ar gyfer y tramgwydd hwnnw fydd yn hytrach y swm a nodir, ynglyn ag ef, yng ngholofn 5.

### Addasu Atodlen 4B

**8.**—(1) Addesir Atodlen 4B i Ddeddf 1991 (wrth ei chymhwyso o ran Cymru) fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 4(2) yn lle "29" rhodder "36".

(3) Ym mharagraff 5(1) yn lle "15" rhodder "29".

### Cymhwyso cosbau

**9.** Caniateir i awdurdod stryd ddidynnu o'r cosbau penodedig a dderbynnir o dan Atodlen 4B i Ddeddf 1991, y costau rhesymol am weithredu'r cynllun y telir hwy oddi tano, a rhaid iddo ddefnyddio'r enillion net at ddibenion datblygu neu roi ar waith bolisïau ar gyfer hybu ac annog cyfleusterau a gwasanaethau trafnidiaeth sy'n ddiogel, yn integredig, yn effeithiol ac yn economaidd i'w ardal, o'i ardal ac yn ei ardal.

### Ffurf o hysbysiad sy'n tynnu'n ôl hysbysiad o gosb benodedig

**10.** Os rhoddir hysbysiad sy'n tynnu'n ôl hysbysiad o gosb benodedig yn unol â pharagraff 7(1) o Atodlen 4B i Ddeddf 1991, rhaid iddo fod ar y ffurf a osodir yn Atodlen 3.

*Ieuan Wyn Jones*
Y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth,
un o Weinidogion Cymru.

17 Ionawr 2008

ATODLEN 1

Rheoliad 4

FFURF AR HYSBYSIAD O GOSB BENODEDIG

| | | |
|---|---|---|
| * *(*Mewnosoder enw'r Awdurdod Stryd )* | **HYSBYSIAD O GOSB BENODEDIG**<br>**DEDDF FFYRDD NEWYDD A GWAITH STRYD 1991**<br>(Adran 95A ac Atodlenni 4A a 4B) | **HYSBYSIAD O GOS BBENODEDIG**<br>Rhif: ………………… |

**RHAN A**

| | |
|---|---|
| Rhif Ffôn Cyswllt | Rhif Cyf. Gwaith *<br>Rhif Awdurdod Stryd *<br>(**I'w adael yn wag os yw'r tramgwydd yn ymwneud â gwaith na roddwyd hysbysiad ar ei gyfer.*) |
| **AT:** | **DYDDIAD YR HYSBYSIAD HWN:**<br>………………<br>dd mm bb |

**CYFEIRIAD:**

**COD TRAMGWYDD** (*Gweler Rhan B*) (***DS**: dim ond un cod tramgwydd am bob hysbysiad o gosb benodedig*) : …………………

**LLEOLIAD**

**DYDDIAD Y TRAMGWYDD:**

**MANYLION Y TRAMGWYDD :**

**1**. Yr wyf yn rhoi'r hysbysiad hwn i chi, yn unol ag adran 95A o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 ac Atodlen 4B iddi, i roi'r cyfle i chi gael eich rhyddhau rhag unrhyw atebolrwydd am gollfarn am y tramgwydd hwn o gosb benodedig drwy dalu cosb.

**2**. Mae hyn yn golygu na fydd achos cyfreithiol yn cael ei gychwyn am y tramgwydd os telir, yn ddarostyngedig i baragraff 3, y gosb o **£120** (*Gweler Rhan B i gael cyfarwyddiadau ar y dulliau talu*) o fewn y cyfnod o 36 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad hwn. (***DS**: Caniateir i'r Awdurdod Stryd estyn y cyfnod hwn mewn unrhyw achos penodol os bydd yn barnu bod hynny'n briodol (Gweler paragraff 4(3) o Atodlen 4B)*).

**3**. Yn hytrach na thalu'r swm y cyfeirir ato ym mharagraff 2, gellir hefyd gael rhyddhad o'r atebolrwydd o gollfarn am y tramgwydd os telir y swm disgownt o **£80** o fewn y cyfnod o **29** o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad hwn. (***DS**: Os nad yw diwrnod olaf y cyfnod hwn yn digwydd ar ddiwrnod gwaith, caiff y cyfnod ar gyfer talu'r swm disgownt ei estyn tan ddiwedd y diwrnod gwaith nesaf (Gweler paragraff 5(3) o Atodlen 4B)*).

**4**. Os na thelir y swm disgownt o fewn y cyfnod a nodir ym mharagraff 3, fel y'i estynnwyd pan fo'n berthnasol, gellir cael rhyddhad o'r atebolrwydd o gollfarn am y tramgwydd ond ddim ond ar ôl talu **£120** o fewn y cyfnod a nodir ym mharagraff 2, fel y'i estynnwyd os barnwyd bod hynny'n briodol. Os byddwch wedyn yn methu â thalu'r gosb o fewn y cyfnod hwnnw, caniateir cychwyn achos cyfreithiol am y tramgwydd yn eich erbyn.

**5**. Cewch gyfeirio unrhyw sylwadau yr ydych yn dymuno eu gwneud ynghylch yr hysbysiad hwn at ****** yn gan nodi rhif yr hysbysiad o gosb benodedig a ddangosir uchod..

**ENW'R SWYDDOG AWDURDODEDIG** (*mewn prif lythrennau*): ……………………………………………………

**DYDDIAD:** ……………………………………………………

<table>
<tr><td colspan="3">RHAN B</td></tr>
<tr><td>*<br>(*Mewnosoder enw'r Awdurdod Stryd )</td><td><u>CYFARWYDDIADAU AR Y DULLIAU TALU</u></td><td>HYSBYSIAD O GOSB BENODEDIG<br>Rhif:<br>.......................</td></tr>
<tr><td colspan="3">YN ELECTRONIG- Drwy System Glirio Awtomataidd y Banciau (BACS) Dylid gwneud y taliad i . Côd Sortio , Rhif y Cyfrif . Gyda'r taliad rhaid anfon yn brydlon restr o'r rhifau hysbysiadau o gosb benodedig y mae'r taliad ar eu cyfer a'r swm a delir ynglŷn â phob rhif.</td></tr>
<tr><td colspan="3"></td></tr>
<tr><td colspan="3">"AR LEIN" - ewch at ein gwefan yn .</td></tr>
<tr><td colspan="3"></td></tr>
<tr><td colspan="3">DRWY'R POST- drwy wneud eich siec yn daladwy i a'i anfon at . Gyda'r taliad rhaid anfon rhestr o'r rhifau hysbysiad o gosb benodedig y mae'r taliad ar eu cyfer a'r swm a delir ynglyn â phob rhif. Anfonir derbynneb os gofynnir am un.</td></tr>
<tr><td colspan="3"></td></tr>
<tr><td colspan="3">YN BERSONOL - i yn rhwng am a pm ar unrhyw ddiwrnod y bydd y swyddfa ar agor i fusnes. Dylid gwneud unrhyw siec yn daladwy i . Caniateir talu drwy gerdyn credyd neu gerdyn debyd os yw'r cerdyn yn un a dderbynnir gan yr Awdurdod Stryd yn unol â'i weithdrefnau safonol. Gyda'r taliad rhaid anfon rhestr o'r rhifau hysbysiad o gosb benodedig y mae'r taliad ar eu cyfer a'r swm a delir ynglyn â phob rhif. Rhoddir derbynneb os gofynnir am un.</td></tr>
<tr><td colspan="3"></td></tr>
<tr><td colspan="3">DRWY FFÔN - drwy gysylltu â yn ar rhwng am a pm ar unrhyw ddiwrnod y bydd y swyddfa ar agor i fusnes Dim ond drwy ddefnyddio cerdyn credyd neu gerdyn debyd a dderbynnir gan yr Awdurdod Stryd yn unol â'i weithdrefnau safonol y ceir talu. Rhaid i chi nodi rhif yr hysbysiad o gosb benodedig am bob hysbysiad y mae'r taliad ar eu cyfer a'r swm a delir ynglŷn â phob rhif. Anfonir derbynneb os gofynnir am un.</td></tr>
<tr><td colspan="3"></td></tr>
<tr><td colspan="3">DULL ARALL NEU DDULLIAU ERAILL - * .<br>(* Mewnosoder manylion os yw'n gymwys )</td></tr>
</table>

| **CODAU TRAMGWYDDAU A DISGRIFIAD** (Drwy gyfeirio at Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991. | | |
|---|---|---|
| **COD** | **Y TRAMGWYDD** | **DISGRIFIAD CRYNO** |
| **01** | Tramgwydd o dan adran 54(5). | Methiant i gydymffurfio â dyletswyddau o dan a.54 (hysbysiad ymlaen llaw o waith penodol, etc.). |
| **02** | Tramgwydd o dan adran 55(5). | Dechrau ar y gwaith yn groes i a.55 (hysbysiad o ddyddiad dechrau). |
| **03** | Tramgwydd o dan adran 55(9). | Methiant i roi hysbysiad yn unol ag a.55(8) (hysbysiad i'w roi pan fydd hysbysiad a.55 yn peidio â bod yn effeithiol). |
| **04** | Tramgwydd o dan adran 57(4). | Methiant i roi hysbysiad yn unol ag a.57 (hysbysiad o waith brys). |
| **05** | Tramgwydd o dan adran 70(6) sy'n golygu methiant i gydymffurfio ag is-adran (3) neu (4A). | Methiant i gydymffurfio â gofynion i roi hysbysiad o gwblhau gwaith adfer. |
| **06** | Tramgwydd a grëwyd gan reoliadau a wnaed o dan adran 74(7B). | Methiant i roi hysbysiad sy'n ofynnol gan reoliadau o dan a 74 (tâl am feddiannu priffordd pan fu oedi afresymol yn y gwaith). |

ATODLEN 2

Rheoliad 7

SWM Y GOSB

**Y TABL**

| (1) Eitem Rhif | (2) Tramgwydd o dan Ddeddf 1991 | (3) Disgrifiad cryno | (4) Swm y gosb | (5) Swm disgownt |
|---|---|---|---|---|
| 1. | Tramgwydd o dan adran 54(5). | Methiant i gydymffurfio â dyletswyddau o dan a.54 (hysbysiad ymlaen llaw o waith penodol, etc.). | £120. | £80. |
| 2. | Tramgwydd o dan adran 55(5). | Dechrau ar y gwaith yn groes i a.55 (hysbysiad o ddyddiad dechrau). | £120. | £80. |
| 3. | Tramgwydd o dan adran 55(9)(**4**). | Methiant i roi hysbysiad yn unol ag a.55(8) (hysbysiad i'w roi pan fydd hysbysiad a.55 yn peidio â bod yn effeithiol). | £120. | £80. |
| 4. | Tramgwydd o dan adran 57(4). | Methiant i roi hysbysiad yn unol ag a.57 (hysbysiad o waith brys). | £120. | £80. |
| 5. | Tramgwydd o dan adran 70(6) sy'n golygu methiant i gydymffurfio ag is-adran (3) neu (4A)(**5**). | Methiant i gydymffurfio â gofynion i roi hysbysiad o gwblhau gwaith adfer. | £120. | £80. |
| 6. | Tramgwydd a grëwyd gan reoliadau a wnaed o dan adran 74(7B). | Methiant i roi hysbysiad sy'n ofynnol gan reoliadau o dan a.74 (tâl | £120. | £80. |

(**4**) Mewnosodir is-adrannau (8) a (9) o adran 55 gan Ddeddf Rheoli Traffig 2004 (p.18), adran 49(2).
(**5**) Amnewidir adran 70(3) a mewnosodir adran 70(4A) gan Ddeddf Rheoli Traffig 2004 (p.18), adran 54(3).

| (1) Eitem Rhif | (2) Tramgwydd o dan Ddeddf 1991 | (3) Disgrifiad cryno | (4) Swm y gosb | (5) Swm disgownt |
|---|---|---|---|---|
| | | am feddiannu priffordd pan fu oedi afresymol yn y gwaith). | | |

ATODLEN 3 Rheoliad 10

FFURF O HYSBYSIAD SY'N TYNNU'N ÔL HYSBYSIAD O GOSB BENODEDIG

| | | |
|---|---|---|
| * (*Mewnosoder enw'r Awdurdod Stryd*) | **HYSBYSIAD SY'N TYNNU'N ÔL HYSBYSIAD O GOSB BENODEDIG** **DEDDF FFYRDD NEWYDD A GWAITH STRYD 1991** (Adran 95A ac Atodlenni 4A a 4B) | **HYSBYSIAD O GOSB BENODEDIG** Rhif …………… |
| | | |
| **DALIER SYLW** mae'r hysbysiad o gosb benodedig sy'n dwyn y rhif uchod drwy hyn **WEDI'I DYNNU'N ÔL**. | | |
| **ENW'R SWYDDOG AWDURDODEDIG** (*mewn prif lythrennau*): …………………………………………… | | |
| **DYDDIAD**: …………………………………………… | | |

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)*

Mae adran 41 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004 ac Atodlenni 2 a 3 iddi, yn mewnosod adran 95A ac Atodlenni 4A a 4B yn Neddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 ("Deddf 1991"). Mae hyn yn darparu bod tramgwyddau penodol o dan Ran 3 o Ddeddf 1991 yn dod yn dramgwyddau cosbau penodedig ac yn galluogi i reoliadau gael eu gwneud ynglŷn â hwy.

Mae Rheoliadau Gwaith Stryd (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2008 yn gwneud darpariaeth gyffredinol o ran Cymru ynghylch cosbau penodedig am dramgwyddau penodol o dan Ran 3 o Ddeddf 1991.

Mae *rheoliad 2* yn diffinio termau a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn.

Mae *rheoliad 3* yn rhwystro rheolwyr stryd (yr awdurdod stryd dros stryd nad yw'n brifffordd a gynhelir) rhag rhoi hysbysiadau cosbau penodedig ynglŷn â stryd o'r fath.

Mae *rheoliad 4 ac Atodlen 1* yn rhagnodi'r ffurf o hysbysiad o gosb benodedig.

Mae *rheoliad 5* yn gosod y dull o gyflwyno hysbysiad o gosb benodedig a hysbysiad sy'n tynnu'n ôl hysbysiad o gosb benodedig, ac mae'n cynnwys darpariaeth ar gyfer cyflwyno hysbysiad drwy gyfathrebu electronig.

Mae *rheoliad 6* yn pennu na chaniateir rhoi hysbysiad o gosb benodedig mwy na 91 o ddiwrnodau ar ôl cyflawni'r tramgwydd, sy'n dechrau ar y diwrnod y cyflawnir ef.

Mae *rheoliad 7 ac Atodlen 2* yn gosod manylion y tramgwyddau cosbau penodedig ac yn rhagnodi ynglŷn â phob tramgwydd, y bydd y gosb yn £120 oni thelir y swm o £80 cyn diwedd y cyfnod ar gyfer talu'r swm disgownt.

Mae rheoliad 8 yn addasu Atodlen 4B i Ddeddf 1991 (yn ei chymhwysiad o ran Cymru) drwy roi cyfnod o 36 o ddiwrnodau yn lle'r cyfnod o 29 o ddiwrnodau, sef y cyfnod ar gyfer talu cosb benodedig, a thrwy roi cyfnod o 29 o ddiwrnodau yn lle'r cyfnod o 15 o ddiwrnodau, sef y cyfnod ar gyfer talu swm disgownt yn hytrach na'r gosb lawn.

Mae rheoliad 9 yn galluogi awdurdod stryd i ddidynnu'r costau am ddyroddi a gweinyddu hysbysiadau cosbau penodedig o'r cosbau a dderbynnir ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw enillion net gael eu cymhwyso i roi polisïau trafnidiaeth penodol ar waith o ran eu hardal.

Mae rheoliad 10 ac Atodlen 3 yn rhagnodi'r ffurf o hysbysiad sy'n tynnu'n ôl hysbysiad o gosb benodedig.

Gellir cael Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn a Memorandwm Esboniadol gan Is-adran Rheoli Rhwydwaith Ffyrdd, Trafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Swyddfeydd y Goron, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ neu ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn http://www.assemblywales.org/bus-home/buslegislation/bus/bus-legislation-sub/bus-legislation-sub-annulment.htm